# Glas

Bwletin misol Llén natur
Rhif 164
Hydref 2021

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach, adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn




Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

Rhif Elusen 1126027

# Dreinafal ar Brom Aberystwyth [2]

**Mis diwethaf roedd Brenda Jones yn son am arferiad o gymysgu Datura gyda seidr yn Llydaw**

Glas 163: "Stori neu draddodiad yn Llydaw: Priodasau yn arfer cynnwys pentrefi cyfan. Dawnsio o dŷ i dŷ. Ac os oedd prinder seidar, roeddan nhw'n cymysgu rhywfaint o'r *datura* *Datura stramonium* (Wicipedia) efo fo! Codi hwylia pawb, yn ôl pob sôn!" **Brenda Jones**

A finnau, dyn o Lydaw sy wedi ei fagu ar fwyd fferm, a seidr, roeddwn i erioed wedi clywed am arferiad o'r fath. Tybed bod y syniad yna yn dod o'r ffaith bod yr enw *"jenegrel"* yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dau ffrwyth hollol wahanol sef ffrwyth y Datura a ffrwyth coed afalau gwyllt. *"Mezverez"* yw'r enw arall ar *"datura"*. Mae *"mezverez"* sef "yr un sy'n gwneud i rhywun feddwi". Mae angen cofio bod Datura yn blanhigyn wenwynig ac mae 'na stori Euronews i'n hatgoffa. **Dominig Kervegant**



Mi gofiwch flodyn y dreinafal mis diwethaf yn Aberystwyth. Wel dyma fo wedi ffrwytho. Llun gan Harri Lloyd.

Dyma beth mae Thierry Châtel yn dweud yn ei lyfr am blanhigion gwyllt llydaw ***Bleunioù Struzh Breizh***.

Llun 180 *"Jenegrel"* - Planhigyn unflwydd gyda choes dew. Mae ei ddail yn ddanheddog. Mae ei blodau gwyn neu piws yn edrych fel clychau pigog mawr. Mae'n drewi. Mae ei ffrwythau yn bigog. (mis Gorffennaf - mis Medi). Adfeilion, pridd wedi ei godi, tir aredig a braenarau. Dyffryn afon Liger/Loire. Mae ffrwyth *datura* yn wenwynig. Mae'r dail yn dda ar gyfer diffyg anadl. Mae affrodisiac yn cael ei gymysgu gyda'r ffrwythau.




| | | K | B | N | * | L | S | R | * | P |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **180** | **** | 2 | 12 | 9 | * | 4 | 1 | 2 | * | 14 |
| | | | | | | 2 | | | | |

**JENEGREL** (str. V., MM.), aval-spern (g. S.V.), Mewerez (b. L.G.), Jilegre (str. M.H.), E. Datura stramonium F. Pomme épineuse K. Meiwyn S.Thorn-apple.
Plantenn-vloaz tev he c'horzenn. Dantek eo he deliennoù. Heñvel eo he bleunioù, gwenn pe c'hlas-ruz, ouzh kleier bras begek. Flaerius eo. Dreinek eo he frouezh. *Miz Gouere - miz Gwengolo. *Dismantroù, savennoù-douar, parkoù gounezet ha fraostegi. #Traonienn al Liger. *Pistrius eo an aval-spern. Mat eo an deliennoù a-enep ar berranal. Un triakl orgedus a vez graet gant ar jenegrel.

**180 b AVAL-HOUARN:** (Hervez E. Guillou.) Betek ar brezel diwezhañ e veze kavet e Bro-Dreger avalenned-gwez met ivez gwez-avaloù damc'houez, a roe "avaloù-houarn". Plantet e vezent pe e kreskent o-unan er gwerjeoù. Implijet e vezent da sklaeraat ar jistr: lakaet e veze dek dre gant a avaloù-houarn er bern avaloù.

Llun 180 b *"Jenegrel"*/"Afalau-haearn" - Mae'r un enw yn cael ei rhoi i afalau gwyllt, "afal-haearn", *aval-houarn*: (Yn ôl E. Guillou.) Hyd at y rhyfel diwethaf roedd 'na goed-afalau gwyllt a choed-afalau hanner-wyllt oedd yn cynyrchu "afalau-haearn". Roeddent yn cael eu plannu, neu roeddent yn tyfu ar eu pennau eu-hunain, mewn perllanau. Roeddent yn cael eu defnyddio i gynyrchu seidr goleuach: Roedd deg a cant o "afalau-haearn" yn cael eu cymysgu gyda gweddill yr afalau. **Thierry Châtel**

Dewiswch Gwefan Cliciwch!




Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:
llennatur@yahoo.co.uk

## Arthur Vaughan Jones



**Cofio: Arthur Vaughan Jones, athro, botanegydd, naturiaethwr, Athro bywydeg yn Ysgol Glan y Môr.**

**Cofio bod ym Mhen Llŷn rywbryd pan yn blentyn. Porth Iago mwyaf tebyg.** Gweld dyn yn sefyll reit ar ymyl y graig yn edrych i lawr. Nhad yn deud, 'Arglwydd, Arthur di o!' A ffwrdd a fo ar wib, yn meddwl yn siwr bod AVJ am wneud diwedd ar ei hun. Aeth yn ofalus iawn at ben y graig, a dyma fu'r sgwrs:

"Arthur? Wyt ti'n iawn?"

.. "Ydw tad. Trio gweld os mai nyth gwylan benddu ta gwylan arall di honna."

Roedd Nhad a fynta ar staff Ysgol Ramadeg Pwllheli. Roedd o wedi gadael erbyn i mi gyrraedd. Efallai y byddai rhywun o safle Ysgolion Pwllheli yn cofio mwy.

**Brenda Jones**

**Mae Brenda wedi bod yn casglu atgofion. Dowch a 'chwaneg. Beth oedd ei ddyddiadau geni a marw?**

*When I was the lab technician in Ysgol Glan y Môr he'd pop in occasionally as ask for some iso-propyl alcohol for his pooter when he used to go bug collecting. During every visit I used to get a lesson on entomology…. He did something unusual for some YGYM teachers in that he made the subject interesting hence you wanted to listen and learn.*

**Gareth Morris (BJ)**

*I have a vague memory AVJ was from Anglesey but wouldn't bet on it. He was a pretty nifty tennis player, I know that. He gave me a couple of lessons in lower VIth because I was one of the few who actually owned a tennis racquet and I was keen to learn, so I could prance around playing at the Criccieth Tennis Club instead of making the tea! I don't know how he kept a straight face once when I asked if I would really have to sew yards of lace onto my knickers á la Teddy Tingling, or could I just wear shorts, which were not totally acceptable in the 70s.*

**Gan Janet Hankin (BJ)**

*He was from a farm in Botwnnog - Faerdre. Was a brother to Mrs Ellis, Llwyndyrus Farm and an uncle therefore to Richard Ellis and Evan Vaughan who still farms at Llwyndyrus .I would imagine that there would have been an obituary in Y Ffynnon.(papur bro) at the time.* **Gan Margaret Hughes (BJ)**

Fe wnaeth o a'i wraig waith da iawn yn wirfoddol ar ran oedolion gydag anableddau dysgu a'u teuluoedd trwy Mencap a Clwb Ni ym Mhwllheli. **Iona Griffith**

Dwi'n siwr imi glywed untro ei fod yn redwr da yn ei ddydd. Rasys "*middle distance*" neu draws gwlad

**Elwyn Jones**

Ai hwn oedd athro bywydeg yn Ysgol Ramadeg Pwllheli yn y pumdegau ? *('Molars' )* **Harri Lloyd**

Rhywun wedi gweld "pry bach Beddgelert"? Un waith erioed welis i un, pan ddanghosodd ffarmwr o'r ardal un i mi. Mi oedd athro bywydeg Arthur Vaughn Jones wedi son amdano. …. dwi mynd yn ol bron i 50 mlynedd cofiwch! Pryf tebyg i bry ty, ychydig mwy, ond tewach. Cofio Arthur Fon Jones yn son amdano, pan oeddwn yn yr ysgol ac mai dim ond yn ardal Beddgelert oedd o i weld. Wedyn pan oeddwn yn gweithio i filfeddygon Chwilog, mi oeddwn gyda ffarmwr Nant Dwr Oer , Aberglaslyn, a dyma fo yn dangos y pry bach ma i mi " yli pry bach Beddgelet" . Mi oedd gennyf vacuum testubes i gymryd samplau gwaed arnaf, a dyma dynnu y corcyn a mewn a'r pry!! Ella ma hwnnw oedd yr olaf …! **Richard Parry Hughes**

## Modrwyo cudyllod cochion



**Neges a chais gan Wil Williams i hysbysebu Prosiect Modrwyo Cudyllod Cochion.**

**Dyma neges Wil:**

"Ar wahân i fodrwyo adar (Gwaith ar ran BTO), rydym ni wedi bod yn gosod modrwyau ar Gudyllod Coch y gellid eu darllen gyda binocwlars neu dynnu llun gyda lens deleffoto.

Yn ddiweddar, gwelwyd cudyll coch yn Ynys-hir a oedd wedi ei fodrwyo eleni yn ardal Bodorgan ym mis Mehefin. Gwelwyd un arall yn ardal Bodorgan oedd wedi ei fodrwyo yn ardal Dwyran, Mehefin 2019 - gweler y llun.

Gofynnir yn garedig i ddarllenwyr Glas a chriw **Cymuned Llên Natur** gadw llygad a rhoi gwybod i ni os byddant yn gweld cudyllod coch modrwyog yn eu hardal."

**Gweler y pwt am gudyll coch ar ddiwedd y rhifyn hwn o Clwb Llygaid Bach am Adar Sglyfaethus**

## Adar y Wladfa gan Luis Carrizo

Conwra deheuol *Enicognathus ferrugineus*, ***Cachaña*** yn Sbaeneg

Mwy o hanes y am y **Conwra deheuol** yma yn Wicipedia (Cymraeg)



## Teigr Dyfnaint ym Mhlymouth



"Be ydy hwn?" meddai Alison Fisher, "*Jersey tiger*?"
"Ia", meddai Iwan Roberts, "*Euplagia quadripunctaria*. Ar un adeg wedi ei gyfyngu i Ynysoedd y Sianel a Dyfnaint yn yr ynysoedd hyn, ond wedi ymledu bellach i nifer o siroedd de Lloegr. Teigr Dyfnaint yw ei enw yn Gymraeg."


**Duncan Brown**

**Llun cyffredin iawn ydi hwn ar un olwg, ond o wybod ❶nad ydi'r gwyfyn hwn prin yn bod o gwbl yng Nghymru… (eto!), ❷mae'n cael ei ystyried yn 'Genedlaethol Brin B' (*Nationally Scarce B*), ❸mae o wedi ymledu – ac yn dal i ymledu mae'n debyg – o'i hafan agosaf yn Jersey a Ffrainc, a ❹mai yng nghanol Plymouth y tynnwyd y llun….**
***o wybod hyn, mae'r llun yn dweud stori arbennig.***

## Llond y caeau

**"Llond y caeau ohonynt!" meddai Mair Wyn Rowley** - ac arwydd Gorsaf Beddgelert yn llechu yn y cefndir i'w lleoli.

A dyma pam fod hadau esgyll mor bwysig…
Er i ni sylweddoli erbyn hyn mor bwysig ydi hadau ysgall (neu esgyll) i adar fel y nico a'r llinos yr amser yma o'r flwyddyn, bu torri neu chwynu ysgall yn orchwyl






diddiwedd i ffermwyr yr oes o'r blaen (os nad o hyd). O'r 45 cofnod yn son am chwynu neu torri (tori) ysgall neu esgyll (esgill hefyd) yn Y Tywyddiadur fe geir dau benllanw o wneud y gwaith:



**Nico yn bwydo ar hadau yr esgyll yn Rhydsarn, Ffestiniog (lluniau Gwilym A Roberts) 7 Awst 2019**

Dyma graffig o'r 45 o gofnodion rhwng 1820 a 1980 ar c.7 o wahanol ffermydd yng ngogledd Cymru:




Mae'r prif benllanw ym mis Mehefin yn gwneud synnwyr o safbwynt amaethyddol - sef eu torri cyn iddynt hadu. 'Codi pais…' yw eu torri ym mis Awst - a nicos y byd yn gorfoleddu tra bod yr hadau mae' nhw'n eu methu yn sicrhau cenhedlaeth arall o ysgall y flwyddyn nesa!

## Rhyfeddod arall



**Pry hofrol anghyffredin**




Un o'r pryfed hofran llai cyfreddin, *Ferdinandea cuprea* (ar fath o beradyl, dwi'n meddwl). Bangor, ddoe (10 Medi 2021). **Scott Saunders**

*Cuprea* wrth gwrs yn golygu copraidd. Mae Rotheray a Gilbert (2011) yn cyfeirio at hwn fel y *sap run hoverfly*, heb esboniad.

Bangor yn dipyn o gadarnle i hwn yn ôl y map?

## Morgrug hedegog 2021



**Niferoedd enfawr o forgrug hedegog ar gopa Moel Tryfan** 4 Medi 2021 tua 15:30 o'r gloch. Ar y copa yn unig ac yn eitha annisgwyl gan bo dim wedi bod ar y daith fyny. Roedd un clwstwr mawr yna cwpl o rai llai, a phob un o gwmpas y creigiau. Doedd dim posib mynd at y creigiau o'u herwydd. Roedden ni wedi mynd gyda diod a bariau grawnfwyd, ond roedd arogl hyn yn eu denu atom, felly roedd rhaid symud yn eitha cyflym oddiwrthynt. Roedd yn wir fel rhyw fath o bla Beiblaidd. **Catrin Lliar Jones**

Mae rhai pryfed yn 'brynfrigo' [*hilltopping*] - jest meddwl efallai bod elfen o hynny yn fan hyn.

Oedd na rai yno wythnos dwytha 'fyd ac ar gopa Moel Eilio dydd Sadwrn (4 Medi) **Lona Roberts**

**Wedi casglu ychydig o ystadegau o'r amser a'r dyddiad (1530, 4 Medi 2021), o Orsaf Dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr (gorsaf Gethin Prifchard, Moel Tryfan ~2km i ffwrdd fel yr hed y fran, Moel Eilio yn agosach): Tx (tym. max.) 21.1C; Lleithder awyr 85%; Pwysedd awyr 992mb. (disgyn); Gwynt 11.1km/awr SSW.**

Hedfaniad arall ar 24 Awst, Moel Eilio eto (Lona Roberts) a heidiau ar lwybr llechi Mynydd Llandygai pm ma. Codi oddiar y cerrig tua'r haul i weld (Dafydd Wiliams), a welodd nhw y diwrnod cynt hefyd (23 Awst). Ar 22 a'r 23 Awst y gwelodd Paul Williams rai: "Digwyddodd, darfu, megis seren wib... 'Chydig funudau gwyllt ac roedd bob un wedi mynd!" Blaenau Ffestiniog, ddoe, 22 Awst 2021.

**Dyma ystadegau eraill: ~?1530 24 Awst 2021, eto o Orsaf Dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr (gorsaf Gethin Prifchard: Tx22.8C; Lleithder awyr 93%; Pwysedd awyr disgyn 1025mb (1200) disgyn i 1023 (1500); Gwynt 11.9km/awr ENE.**

Ac ar y 17 Gorffennaf cafwyd adroddiadau o Landudno (Gareth Pritchard), Dwygyfylchi (Sheelagh) a Llandrillo.

**Ystadegau o'r amser a'r dyddiad (~?1530 17 Gorff 2021), o Orsaf Dywydd Maes Gwynedd, Waunfawr (gorsaf Gethin Pritchard, ~15km i ffwrdd fel yr hed y fran): Tx26.4; Lleithder awyr 87%; Pwysedd awyr 1022mb (disgyn 1025v1021); Gwynt 10.5km/awr.**

Ymhob achos eleni roedd y tymheredd ar ei uchaf yn fwy na 20C, y pwysedd awyr yn uchel ond yn disgyn a'r gwynt (o wahanol gyfeiriadau) yn ysgafn iawn.

**Nodyn ychwanegol:** ar 26 Mehefin 1842 safodd Charles Darwin ar ben Moel Tryfan. Ni soniodd am forgrug hedegog yno yn anffodus y diwrnod hwnnw ond dydi mis Mehefin ddim yn rhy fuan. Soniodd Derec Stockley am un o'i ystafelloedd gîtes yn Llydaw yn llawn o forgrug hedegog nos Sul 16 Mehefin 2017.

## Gwiwerod ar ddisberod



Wiwer ar ben Gyrn Wigau. Erioed di gweld un mor bell i fyny mynydd. **Kevin Hughes**

**Yn ôl ein cofnodion diweddaraf bu'n flwyddyn dda i'r wiwer lwyd – a barnu wrth y nifer ohonoch sydd wedi gweld gwiwerod (ifanc?) mewn lleoedd annisgwyl.**

- Welsom ni wythnos dwytha [ddechrau Medi] ar ffordd lawr Gyrn Wigau - roeddwn yn poeni amdano fyny fano - dim llawer o le i guddio! **Helen Ev**

- Ond nid Gyrn Wigau oedd yr unig fynydd chwaith; gwelodd Ifan Llywelyn Jones un ar y Moelfre, Ardudwy ym mis Awst eleni. Ond nid mynyddoedd yn unig oedd yn ysgogogi anturgarwch y wiwerod:

Gwelodd Pryderi Jones wiwer yn croesi Llyn Clywedog a gwelodd Scott Saunders un yn nofio dros y Fenai (newyddion drwg i'r wiwer goch ym Môn?) Ac wn i ddim lle yn y byd oedd wiwer Prom Aberystwyth yn meddwl ei fod o'n mynd!

- Dyma Jackie Wilmington: "Dim llun o'r wiwer ond gwelais un ar rodfa'r gogledd yn Aberystwyth heddiw. Rhaid ei bod wedi teithio cryn dipyn o bellter drwy'r strydoedd o'r coed agosaf." Ydi wiwerod llwydion yn mynd ar ddisberod pob blwyddyn tybed?
- Dyma gofnod o 1991: Medi 1991 Pen yr Oleu Wen: Wiwerod llwydion yn arbennig o niferus yn farw ar y lonydd ddiwedd mis Awst ddechrau mis Medi? Llyr Gruffydd wedi gweld wiwer lwyd bron ar gopa Pen yr Ole Wen ddechrau'r mis.

**Sylwch bod pob un o rhain uchod wedi eu gweld ym mis Awst neu Fedi (arwydd o gyni ar y to ifanc chwyddedig?). Mae nifer o hen gofnodion di-ddyddiad wedi dod i law hefyd o ben mynyddoedd** (Crib Nantlle, Elen Huws; Moel Eilio, Gareth Jones a Robert Williams).

## Beth yw gwerth lawnt… ac i bwy…?





**Mae lawntiau yn cael 'gwasg gwael' y dyddiau hyn gan rai. Ond mae rhai yn cael budd mawr ohonynt – er nad yw'r 'lawntiwr' wrth ei fodd pob amser!**

Meddai Gareth o Landudno: "Mae Jacdoeau yn 'bla' bob blwyddyn ddiwedd Awst a Medi yn tyrchu lawntiau i godi cynrhon pryfed teiliwr. Yn ôl yn 2013, Medi 23 oedd eu dyddiad cyntaf. Y llynedd Medi 11eg, ond eleni (fideo (20+) Facebook) mae cymaint â dwsin ar y tro wrhi'n ddygn ers Awst 30."

**Gareth Pritchard**

**Er fod hoffter jacdoeau (ac anifeiliaid eraill) o bryfed lledr yn ddihareb, dyma'r tro cyntaf i ni gael tystiolaeth pendant o bwy sydd wrthi yn tyrchu lawntiau taclus gerddi swbwrbia. Gwell fyth, dyma lun Gareth o'r tamaid blasus – cynrhonod y pryf teiliwr.**
**Mae'r dyddiadau yn ddifyr Gareth. Ai diwedd Awst dechrau Medi yw'r cyfnod pan fo'r cynrhon pry' teiliwr yn ddigon mawr i fod yn werth eu cynaeafu?**

**Meddai Gareth eto:** "Wel, na! Mae'n dibynnu!
Ar yr 20fed o Orffennaf, 2019, y cododd aelod o'r teulu y rhain o'i lawnt o yn Y Bontnewydd. Ddiwedd Awst a rhan helaeth o Fedi yw'r amser yn Llandudno….
tra rydw i'n sgwennu hwn mae rhyw ddwsin o'r diawliaid yn gwledda!"

7fed o Orffennaf ydi'r cofnod cynhara eleni sgen i ym Mae Colwyn o 5-6 yn yr ardd. Ag ers hynny bron iawn yn ddyddiol.

**Magwen Davies**

**Efallai bod y garddwyr hyn yn bytheirio am eu 'pla' – ond mae eu sgiliau cofnodi natur yn rhagorol os ga'i ddweud!**

## Cwtiad y traeth dan y pier

**Cwtiad y traeth, ymhlith y cregyn gleision gwag. Dan Pier Garth, Bangor, ddoe 20 Awst 2021 . ❶**

**Scott Saunders**

Wrth fy modd gweld lluniau natur cyffredin o berspectif gwahanol. Llawer yn cytuno hefyd. Da iawn chi.

**DB**

Dyma fwy, yn clwydo tro yma, eto yn eu gwisg haf, eto gan Scott. Dydyn nhw ddim yn nythu yng ❷ Nghymru.

"Cwtiad Y Traeth a Gylfinir, cuddliw da ganddynt. Ansawdd y clip ddim y gorau, oedd hi'n wyntog iawn lawr ar draeth Llanfairfechan min nôs 27/10/2920".

**Eirlys Ruhi Edwards-Behi**




❶



❷


**Dyma griw (20+)** - **Fideo CYMUNED LLÊN NATUR :** Cwtiad Y Traeth a Gylfinir, cuddliw da ganddynt - Facebook o gwtiaid y traeth (efo gilfinir) fel rydych yn arfer eu gweld nhw yn y gaeaf, yn palfalu o dan y cerrig (S. turnstone) – os nad ydych wedi eu dychryn gyntaf, mae nhw'n reit swil.

## Hunlun ar safle Draig Bethesda



Mae Dominig Kervegant - sydd hefyd un o aelodau tîm Llên Natur - yn hoff iawn o helfeydd ffwng. Doedd o ddim yn sylweddoli (dim cweit!) ei fod yn cymryd selffi pan dynnodd luniau o ysgwydd derw ***Pseudoinonotus dryadeus***. **(14/9/2021)**





❼

Clwb y Llygaid Bach

Llên natur

Adnabod rhai

# Adar Ysglyfaethus

Prosiect Llên Natur - Cymdeithas Edward Llwyd




**1. Barcud coch**

Aeth yn brin ar un cyfnod gydag ond ychydig barau yng Nghymru (yn ardal Pumlumon, Sir Aberteifi) oherwydd yr hela trwm ac i wenwyn fynd i'r gadwyn fwyd. Mae'n cynyddu bellach. Yn frowngoch gyda phen gwelw a darn gwyn o dan yr adain. Yr adenydd yn hir a chul a'r gynffon yn fforchog. Ei hoff fwyd yw mamaliaid bach, cwningod, defaid marw, cywion brain a gwylanod.




**2. Bwncath**

Mae tua 51–57 cm o hyd a rhwng 110 a 130 cm ar draws yr adenydd. Fel rheol yn nythu mewn coeden, ond yn hela dros dir agored. Oherwydd hyn, mae'n hoffi tiriogaeth lle mae cymysgedd o goed a chaeau. Mae'n bwyta mamaliaid bach yn bennaf, yn cynnwys llygod, llygod mawr a chwningod, ond mae hefyd yn bwyta anifeiliad wedi marw, cywion adar a phryfed genwair. Gellir gweld pâr, neu ddau bâr o fwncathod yn troelli yn yr awyr uwchben eu tiriogaeth yn y ganwyn, ac yn tynnu sylw trwy eu galwadau *piii-âw*, nid annhebyg i gathod.




**3. Cudyll coch**

Aderyn gweddol fychan, rhwng 34 a 38 cm o hyd a 70–80 cm ar draws yr adenydd. Y rhan fwyaf o'r plu yn frown gyda smotiau du, ac mae gan y ceiliog ben a chynffon llwydlas. Wrth hedfan, gellir ei adnabod o'r gynffon hir, adenydd hir a'r ffaith ei fod yn aml yn medru aros yn ei unfan yn yr awyr wrth hela. Anifeiliaid bychan, yn enwedig gwahanol fathau o lygod, yw'r prif fwyd, ond mae hefyd yn bwyta adar bychain, llyffantod a phryfed. Wrth hela yn aml bydd yn aros yn ei unfan yn yr awyr i wylio am symudiad cyn plymio i'r ddaear. Yn nythu mewn coed, yn aml yn defnyddio hen nythod brain, ar greigiau, neu ar ben adeiladau.



**4. Gwalch glas**

Mae'n nythu mewn coed, ac yn hela adar bychain yn bennaf. Gall symud yn gyflym trwy'r coed i ddal adar cyn iddynt wybod ei fod yno. Ei gynffon yn hir ac adenydd gweddol fyr a llydan. Mae'r ceiliog yn llwydlas ar ei gefn a llinellau coch ar y fron, tra mae'r iâr yn fwy brown. Y ceiliog sydd rhwng 29 a 34 cm o hyd a 59–64 cm ar draws yr adenydd ac yn llai na'r iâr. Mae'n aderyn cyffredin yma sy'n cynyddu erbyn hyn ac i'w weld ymhobman heblaw yn y mynyddoedd.



**5. Gwalch y pysgod**

Mae'n byw yn bennaf ar bysgod. Mae ganddo ddosbarthiad eang iawn trwy'r byd, ac yn un o'r ychydig adar sydd i'w cael ar bob cyfandir heblaw yr Antarctig. Mae'n 60 cm mewn hyd a 180 cm o adain i adain. Brown ydy rhan uchaf ei gorff a'r rhan isaf yn wyn; mae ymylon ei lygaid a'i esgyll yn blu du. Gall blymio i'r dŵr ar gyflymder uchel i ddal ei ysglyfaeth gyda'i grafangau. Mae'n nythu gerllaw llynnoedd ac afonydd fel rheol. Diflannodd o wledydd Prydain yn 1916 ond dychwelodd y gwalch i nythu yn y 1950au.



**6. Hebog Tramor**

Mae'n aderyn cyffredin yng Nghymru, fel rheol yn nythu yn y mynyddoedd, ond gall hefyd nythu ar adeiladau uchel. Bydd yn treulio'r gaeaf o gwmpas glannau'r môr. Mae'r iâr yn fwy na'r ceiliog fel rheol. Yn aml clywir yr alwad "kek-kek-kek-kek" pan fo rhywun yn dynesu at y nyth. Ei fwyd yw adar maint colomen (colomennod dof, ysguthanod, grugieir, adar môr). Bydd yn plymio arnynt oddi uchod yn ddiarwybod iddynt ac ystyrir yn un o'r adar sy'n medru hedfan gyflymaf. Dywedir y gall gyrraedd 200 milltir yr awr pan fo'n disgyn o uchder i geisio dal aderyn.

| | Pryd? | Ble? | Pwynt |
|---|---|---|---|
| 1 | | ______________________________ | 30 |
| 2 | | ______________________________ | 15 |
| 3 | | ______________________________ | 30 |
| 4 | | ______________________________ | 20 |
| 5 | | ______________________________ | 40 |
| 6 | | ______________________________ | 35 |